

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 13eg o Dachwedd 2018

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Justin Davies, Nerys Williams, Dylan Herbert, Erfyl Williams – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Nora Jones, Harry Wyn Owen – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo; Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cynghorwyr Sir; Ioan Gruffydd – Prifysgol Bangor (eitem 3) **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones – Nantlle; Iona Wyn Jones – Penygroes. Croesawyd Nora Jones i'r cyfarfod, yn cynrychioli ward Talysarn ar y Cyngor.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.
- 3. Gwadd – Ioan Gruffydd (Adran Cymraeg i Oedolion Prifysgol Bangor – Pwnc 'Dysgwyr y Dyffryn'.** Cafwyd cyflwyniad gan Ioan ar swyddogaeth ei Adran yn y Brifysgol – am gyfleon i bobl di-Gymraeg i ymarfer eu Cymraeg yn y gymuned, ac am gyrsiau i oedolion. Dywedodd fod angen fel arfer o leiaf 8 o bobl i fedru cynnal cwrs, a bod cynnal sesiynnau blasu am ddim wedi bod yn aflwyddiannus i ddenu dysgwyr mwy parhaol i wersi ble mae tal amdanynt. Rhoddodd Ioan wybodaeth i'r Cyngor am eu 'Cynllun Siarad', pobl Cymraeg yn cofrestru i sgwrsio efo dysgwyr fel cyfle i ymarfer yr iaith. Y Cyngor yn crybwyll efallai noddai cynllun o'r fath. Dywedodd Ioan fod cyfarfod arall ar y gweill yn Ysgol Bro Llew er mwyn cael mwy o fewnbwn ynglyn a'r ardal hon. Penderfynwyd y gallwn weld sut fath o gynllun fyddai ei angen yn Dyffryn Nantlle yn dilyn cyfarfod Ysgol Bro Llew, ac wedyn gwahodd Ioan yn ol i drafod efo'r Cyngor Cymuned.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Hydref.** Cafwyd y cofnodion yn gywir, ond bod angen cywiro enw Dylan (eitem 1).
- 5. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad ysgrifenedig ac ar lafar gan Judith. Fe'i holwyd am gais Safle Treftadaeth UNESCO, a dywedodd fod trafodaethau ar y gweill i adnabod safleoedd pwysig. Codwyd y pwnc o ailgylchu, a dywedodd fod y Cyngor yn ail-edrych ar y trefniadau yn gyffredinol. Cafwyd adroddiad ar lafar gan Craig. Dywedodd fod parcio a gor-yrro yn parhau yn broblem a fod parcio y tu allan i'r ysgol yn creu pryder am ddiogelwch plant. Crybwyllwyd y byddai yn syniad cael heddwys yno am gwpl o wythnosau. Cododd Craig nad oedd cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned yng nghyfarfod Delwedd y Dyffryn, ac y byddai o fudd i'r Cyngor fynychu. Craig yn datgan fod cais am fin wrth y bont rhwng Llanllyfni a Penygroes wedi ei wrthod gan y byddai yn rhy bell o'r lon i'r Cyngor ei wagio.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Gofynwyd i'r Clerc ofyn am bamffledi baw ci a bagiau i Ysgol Nebo, Ysgol Talysarn ac Ysgol Baladeulyn. Dafydd Thomas yn gwirfoddoli i'w rhannu yn Nebo. Gallir rhoi baw ci yn y bin gwastraff ty gwyrd. Archebu un arwydd ychwanegol tir anwastad i'r giat yn Gorphwysfa.
- 7. Materion Pentrefi Talysarn** Baw ci ar Lon yr Eglwys a Ffordd Coedmadog – oes posib cael bin mawr ym mhen uchaf Ffordd Coedmadog neu Ffordd yr Eglwys ; Peiriant glanhau stryd – byth yn glanhau Bryncelyn – gwneud cais gan fod y draeniau yn cau ; Biliau trydan ystafelloedd newid – Dylan yn adrodd fod swyddog wedi bod mewn trafodaethau a'r pwyllgor Clwb Pel Droed.
Nebo Dafydd Thomas yn adrodd fod grwp yn y pentref yn parhau i fod mewn cyswllt efo asiantaethau efo canglwm ar y gors. Wedi sicrhau nawdd o £1000 gan y Bwrdd Dwr, a £500 gan y Pwyllgor Ardal. Gofynwyd i'r Cyngor Cymuned ystyried rhoi grant, gyda'r gobaith o ddechrau ar y gwaith y flwyddyn nesaf. Mae'r grwp wedi bod yn mapio'r manau ble mae'r planhigyn yn tyfu.
Llanllyfni Baw cwn yn parhau yn broblem. Arwydd Lon Tyddyn Agnes ar waelod y lon wedi diflannu.
Penygroes Cyfnod aros hir o rai wythnosau am gasgliad gwastraff swmpus gan Gyngor Gwynedd – holi os yw hyn yn gyffredinol. Eitemau mawr y tu allan am gyfnod hir cyn cael eu gwaredu; Holi Cyngor Gwynedd pa mor aml maent yn glanhau draeniau – mater brys gan fod pryder mawr ym Mhenygroes am berygl llifogydd i eiddo, yn enwedig efo'r tywydd yr ydym yn ei gael. Hyn yn berthnasol ym mhen uchaf Llanllyfni hefyd, ac wrth y Co-op. Dwr yn cronni dros y ffordd i'r stad ddiwydiannol. Y Cyngor yn dymuno fod Cyngor Gwynedd yn gwneud ymdrech i brofi eu bod wedi bod yn glanhau, a chadarnhau pryd y byddant yn ymweld a'r Dyffryn i Gyd; Twll yn y ffordd ger 80 Trem yr Wyddfa, 55 Trem yr Wyddfa yn beryglus. Arwydd yr hen doiled wedi torri a chwythu at o flaen y fflatiau; Baw wedi golchi yn ol i'r draeniau ar Ffordd yr Orsaf; Cais am linellau melyn ar Ffordd y Sir dros y ffordd i lon Llwyn y Fuches gan fod ceir yn parcio ac

yn creu rhwystr, a chais am linellau ar Ffordd y Sir wrth y garejis; Coed o'r lon newydd yn dod drwy'r ffens i Cwtin – gofyn iddynt gael eu torri.

8. Taflen Ariannol a Chyllid. Cymeradwywyd y daflen ariannol.

9. Cynllunio. C18/0853/22/LL Chwarel Ty Mawr West, Talysarn – Cais i amrywio amod ar ganiatad cynllunio er mwyn gweithredu ar allbwn o 300 tunnell y dydd. Caniatau. Wrth drafod y caniatad cynllunio, death y mater yma i sylw. Ar yr un pwn ond ddim yn gysylltiedig a'r cais hwn yn benodol, mynegwyd pryderon yn gyffredinol fod lorïau a thractors yn teithio ar hyd Ffordd y Sir, a bod trelars heb eu gorchuddio – anfon at y chwareli a Dafydd Gareth Jones, Cyngor Gwynedd; C18/0922/22/LL 85 Hyfrydle Road, Talysarn – cais i ddiwygio amod i ganiatad cynllunio er mwyn ymestyn cyfnod cychwyn gwaith Caniatau.

10. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis. Awgrymu fod cyfarfod arall ar gyfer trafod R Williams Parry ddechrau'r flwyddyn. Darllenwyd cofnodion yr **is-bwyllgor mynwnetydd.** Cadarnhawyd fod digon yn y gronfa i dalu am y gwaith cam 1 i gyd. Bydd 2 anfoneb – un i'r contractiwr ac un i'r asiant. Adroddwyd i'r Cyngor llawn yr amcan bris ar gyfer cam 2. Argymhellwyd i'r Cyngor llawn fod angen benthygiad ar gyfer cwblhau cam 2. OP Huws / Hefina / Justin yn cynnig y dylid edrych ar y gost a gwneud cais i'r Llywodraeth am ganiatad benthyca tymor hir. Disgwyl am y bil terfynol cam 1. **Pawb yn cytuno, ac felly penderfynwyd** cytuno mewn egwyddor i fenthyg, a chytuno ar y swm yn nhrefodaeth y Praesept fis Ionawr; Barry yn adrodd i'r Cyngor ei fod wedi mynychu cyfarfod yn Cynefin neithiwr – ymchwil ar gyfer canolfan feddygol newydd ac ati. Barry yn cynnig rhoi 2 enw ymlaen o'r Cyngor Cymuned i fod ar y grwp trafod ac ymgynghori efo'r gymuned. Y Cyngor Cymuned yn cytuno. Barry am gynnig rhywun i'r cyfarfod fis nesaf i gyflwyno'r prosiect i'r Cyghorwyr.

11. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

*Rhybudd Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd – Penygroes 2/11/18 a 10/10/18. Er gwybodaeth.

*Banciau Ailgylchu Cymunedol. Y pryder oedd wrth i fanciau ailgylchu cymunedol ddiflannu bydd mwy o tipio anghyfreithlon. Paham ddim ymgynghori – a holi barn Cyngor Gwynedd.

*Ymgynghoriad Cyhoeddus – Canllawiau Cynllunio Atodol (diwygiadau bychan). Rhannwyd yr wybodaeth.

***Arall**

*Cylch yr Iaith. Er gwybodaeth.

*Comisiwn Ffiniau Cymru. Dogfen gyda'r argymhellion i'r Llywodraeth – argymhelliad fod Etholaeth Nebo (Cynghorydd Sir) yn ymuno gydag etholaeth Clynnog.

*Un Llais – Adolygiad Arloesi Digidol; Digwyddiadau Cadoediad; Deall Llefydd Cymru. Er gwybodaeth.

*T Coleman – cais am arian/llythyr. Darllenwyd y llythyr – y Cyngor yn ddiolchgar iawn am y cynnig help efo symud cofebion Eglwys Talysarn. Cysylltu yn ol ac esbonio fod y cofebion mawr yn cael eu symud i fynwent MacPelah.

12. Goleuadau Nadolig. Dylan am wneud arolwg o'r pentrefi i gyd.

13. Biniau Halen Pwyso ar y Swyddog Cyngor sir am ymateb. 20 bin i gyd.

14. Ieuenctid yn Groeslon. Ieuenctid yr ardal yn mynd i Groeslon ac yn yfed dan oed ac ati. Trigolion yn bryderus iawn gyda'r nosau. Penderfynwyd ysgrifennu at yr Heddlu gan ein bod wedi sylwi ar y pryderon, a rhoi pwysau ar yr Heddlu i fonitro.

15. Clwb Ieuenctid Penodiadau ar y gweill. Diweddariad mis nesaf.

16. Llwybrau a Mynwentydd. Cynlliuniau cam nesaf MacPellah; PWLB. Trafodwyd prosiect MacPelah o dan eitem 10; Bedd wedi suddo yn Gorphwysfa. Harry am edrych.

17. Materion yn ymwedd a'r heddlu. Dim mater yn codi.

18. Materion ariannol – *Anfonebau: A Johnson – derbynebau £16.08; A Johnson – Ffon/Rhyngwyd £25; Cyngor Gwynedd Archwilio - £222.00; Designer Signs £92.04; Apel y Pabi £40. Cymeradwyo.

Ceisiadau am arian – Grwp Blodeuwedd – trafod Chwefror.